# Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: canllawiau i ymgeiswyr

Nodyn cyfarwyddyd

**Cyfeirnod:** GN 012

**Perchennog y ddogfen:** Pennaeth Busnes, Rheoli Adnoddau Naturiol

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r canllawiau hyn yn nodi rôl CNC fel ymgynghorai arbenigol mewn perthynas â cheisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, a sut i ymgysylltu â ni drwy'r broses ymgeisio.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Ymgeiswyr a datblygwyr sy'n paratoi cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

## Manylion cyswllt ar gyfer cwestiynau ac adborth

EPP.Planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Hanes y fersiynau

| Fersiwn y ddogfen | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2017 | Cyhoeddwyd y ddogfen |
| 2.0 | Mehefin 2022 | Diweddariadau deddfwriaethol |

Dyddiad adolygu: Mehefin 2023

Er mwyn adrodd ar faterion neu broblemau ynglŷn â'r canllaw hwn, cysylltwch â'r Tîm Datblygu Canllawiau

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 3
1.2 Sut i gysylltu â ni ........ 3
1.3 Y broses ymgeisio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ........ 4
2. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai arbenigol ........ 4
2.2 Cyn gwneud cais – cyngor statudol ........ 4
2.3 Cyn gwneud cais – cyngor yn ôl disgresiwn ........ 7
2.4 Ymgynghoriad ar ôl cyflwyno cais – cyngor statudol ........ 8
2.5 Datganiadau Tir Cyffredin ........ 11
2.6 Cytundebau adran 106 ........ 11
2.7 Archwilio ........ 11
2.8 Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai: Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ........ 11
2.9 Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff ymgynghori: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ........ 12
2.10 Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ........ 12
2.11 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ........ 12
3. Cydsyniadau sy'n gysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru ........ 13

# 1. Cyflwyniad

Mae’r canllawiau hyn ar gyfer ymgeiswyr a datblygwyr sy’n dymuno cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Maent yn nodi ein rôl fel ymgynghorai arbenigol mewn perthynas â cheisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a dylid cyfeirio atynt wrth baratoi cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Nid yw'r canllawiau hyn yn diystyru darpariaethau deddfwriaethol ac nid ydynt yn cynnwys cyngor cyfreithiol.
Dylech gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol a cheisio cyngor cyfreithiol annibynnol os oes angen.

Rydym hefyd yn nodi manylion y gwasanaethau rydym yn eu cynnig yn ystod y broses o gyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac yn disgrifio:

- pryd mae'n well ymgynghori â ni
- y broses ar gyfer gofyn am y gwasanaeth hwn
- y ffioedd am ddarparu cyngor yn ôl disgresiwn

Yn ogystal â'n rôl fel ymgynghorai arbenigol, rydym hefyd yn pennu cydsyniadau a allai fod yn berthnasol i'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Dylech ddarllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â chanllawiau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar y canlynol:

- Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS): canllawiau | LLYW.CYMRU , sy'n esbonio'r broses ymgeisio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol a’r derminoleg a ddefnyddir, ac sy'n cynnwys canllawiau ar Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd
- Canllawiau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: rôl cyrff cyhoeddus | LLYW.CYMRU

## 1.2 Sut i gysylltu â ni

Gallwch ddod o hyd i'n pwyntiau cyswllt ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cysylltwch â ni gydag ymholiad cynllunio

Cofiwch roi eich manylion cyswllt fel y gallwn ymateb yn brydlon.

## 1.3 Y broses ymgeisio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol

Mae'r siart lif yn Ffigur 1 yn crynhoi’r prif gamau yn y broses o benderfynu ar gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

# 2. Rôl Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai arbenigol

O dan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (Gorchymyn 2016), mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn 'ymgynghorai arbenigol' yn y broses o ymgeisio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol lle:

- mae'r datblygiad yn dod o fewn categori a nodir yn y tabl yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016
- mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i enwi'n ymgynghorai arbenigol ar gyfer categori penodol

**Ffigur 1:Proses y Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol**

Ymgysylltu cyn hysbysu Hysbysiad cyn ymgeisio (12 mis) Ymgynghoriad cyn ymgeisio (o leiaf chwe wythnos) Cyflwyno cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol Dilysu'r cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (hyd at 6 wythnos) Ymgynghori a chynhyrchu adroddiad ar yr effaith leol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (5 wythnos)

x\

Ffenestr ar gyfer diwygiadau (10 diwrnod)

Penderfynu ar y weithdrefn

Archwiliad ac adroddiad yr arolygydd (hyd at 17 wythnos)

Gweinidogion Cymru yn ystyried adroddiad argymhelliad (12 wythnos)

Gwneud penderfyniad

Cyfnod herio'n gyfreithiol (6 wythnos)

## 2.2 Cyn gwneud cais - cyngor statudol

Mae'n ofynnol i chi ymgynghori â ni cyn cyflwyno'ch cais i Weinidogion Cymru os yw'r cynnig yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf a ragnodir yn Atodlen 5 Gorchymyn 2016.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Datblygiadau yn ymwneud â, neu'n cynnwys, gweithrediadau mwyngloddio
- Datblygiadau sy'n cynnwys gwneud gwaith neu weithrediadau yng ngwely neu ar lannau afon neu nant
- Datblygiadau at ddiben mireinio neu storio olewau mwynau a'u deilliadau
- Datblygiadau yn ymwneud â chadw, trin neu waredu carthion, gwastraff masnachu, slyri neu slwtsh (ar wahân i osod carthffosydd, adeiladu adeiladau pwmpio sydd o fewn rhes o garthffosydd, adeiladu tanciau carthion a charthbyllau sy'n gwasanaethu tai annedd unigol neu garafanau unigol neu adeiladau unigol lle na fydd mwy na deg o bobl yn byw, gweithio neu ymgasglu ynddynt fel arfer, a gwaith sy'n ategol iddynt)
- Datblygiadau yn effeithio ar ddefnyddio tir fel mynwent

- Datblygiadau sydd i) mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu'n debygol o effeithio ar un, neu sydd (ii) o fewn ardal yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru amdani gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru ac sydd o fewn dau gilometr i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, y mae hysbysiad wedi'i roi amdano, neu mae effaith fel pe bai wedi'i roi, i Weinidogion Cymru gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, yn unol ag adran 28 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig)
- Datblygiadau o fewn 250 metr i dir sydd – (i) yn cael ei ddefnyddio, neu wedi cael ei ddefnyddio, ar unrhyw adeg yn y 30 mlynedd cyn y cais perthnasol, ar gyfer dyddodi sbwriel neu wastraff, ac sydd ii) wedi bod yn destun hysbysiad i Weinidogion Cymru gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion y ddarpariaeth hon
- Datblygiadau - (i) sydd ar dir a ddynodwyd yn Barth Llifogydd C2; (ii) sy'n ymwneud â neu'n cynnwys datblygiad gwasanaethau brys neu ddatblygiad mewn perygl mawr ar dir a ddynodwyd yn Barth Llifogydd C1 neu ar dir sydd wedi bod yn destun hysbysiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan Gorff Adnoddau Naturiol Cymru at ddiben y ddarpariaeth hon

Ar gyfer ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol o dan Orchymyn 2016, mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r gofynion cyhoeddi o dan Erthygl 8 a chyflwyno hysbysiad i ni o dan Erthygl 9 fel y'i rhagnodir yn Atodlen 2 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) (Diwygio) 2019, neu mewn ffurf sydd ag effaith sylweddol debyg.

Yn ogystal, byddem yn disgwyl cael yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r cynllun, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Datganiad amgylcheddol yn cynnwys methodolegau a mesurau lliniaru arfaethedig i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol arwyddocaol
- Rhestr o gydsyniadau eilaidd y gwnaed cais amdani fel rhan o'r cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Ffurflenni cais a dogfennau sy'n gysylltiedig â chydsyniadau eilaidd
- Amserlen arfaethedig ac atodlen o gydsyniadau cysylltiedig Cyfoeth Naturiol Cymru y gwneir cais amdanynt, ynghyd â'r holl ddogfennau sydd ar gael
- Yr holl gynlluniau a lluniadau sydd eu hangen i nodi a disgrifio'r datblygiad arfaethedig
- Adroddiad ar Effeithiau Arwyddocaol Tebygol o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd)

Bydd CNC yn darparu ymateb o sylwedd o fewn 42 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad y cyfeirir ato yn Erthygl 9. Byddwn yn darparu un ymateb sylweddol i gais penodol am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Pan fo angen cyngor pellach cyn ymgeisio ar yr ymgeisydd, caiff CNC gytuno i ddarparu hwn yn ôl ei ddisgresiwn yn unol â'i delerau ac amodau safonol o dan ei gynllun codi tâl.

Bydd ein hymateb sylweddol i ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol fel ymgynghorai arbenigol yn cynnwys un o'r pedwar ymateb a ganlyn a gynhwysir yn Nhabl 1.

**Tabl 1:Categorïau ymatebion o sylwedd yn y cyfnod cyn ymgeisio**

| Categori ymateb o sylwedd | Pryd caiff ei ddefnyddio |
|---|---|
| Yn datgan bod gan yr ymgynghorai arbenigol ddim sylw i'w wneud | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan nad yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf ar bynciau ymgynghori'r Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygu. |
| Yn datgan bod gan yr ymgynghorai arbenigol ddim gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ac yn cyfeirio'r ymgeisydd at cyngor sefydlog cyfredol gan yr ymgynghorai arbenigol ar bwnc yr ymgynghoriad | Byddai'r categori hwn o ymateb yn cael ei ddefnyddio pan ydym yn ystyried bod unrhyw effeithiau ar fuddiant amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu yn cael eu hosgoi'n briodol neu eu lliniaru heb unrhyw amodau cynllunio yn cael eu ceisio gennym ni. Byddwn yn cyfeirio at gyngor sefydlog Cyfoeth Naturiol Cymru ar destun yr ymgynghoriad. |
| Yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut gellir mynd i'r afael â'r pryderon hynny | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan ydym yn ystyried bod y cynllun yn dderbyniol mewn egwyddor a ble: |
| | • Mae angen addasiadau i'r cynllun arfaethedig i oresgyn effeithiau amgylcheddol annerbyniol; a/neu |
| | • Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiffygiol a lle na allwn ddiystyru effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl; a/neu |
| | • Gellid tawelu ein pryderon drwy atodi amodau i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd gan Weinidogion Cymru. |
| | Efallai y byddwn hefyd yn amlygu, wrth ddefnyddio'r categori hwn o ymateb, y byddem yn gwrthwynebu'r cynllun os na roddir sylw i'n pryderon ac os na chymerir camau gweithredu a argymhellir. |
| Yn cynghori'r ymgeisydd bod gan yr ymgynghorai arbenigol bryderon ac y byddai'n gwrthwynebu cais am ganiatâd cynllunio a wnaed yn yr un telerau neu'r un telerau i raddau helaeth ac yn nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan ydym yn ystyried: |
| | • Byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar yr amgylchedd |
| | • Ni ellid goresgyn yr effeithiau heb newidiadau sylweddol i'r cynllun |
| | Byddem yn esbonio'r rhesymau dros ein pryderon ac yn nodi pam rydym yn ystyried y cynllun yn annerbyniol yn ei ffurf bresennol. |

Mae adran 20 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn galluogi gwneud cais am gydsyniadau penodol fel rhan o gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gelwir y rhain yn gydsyniadau eilaidd i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gydsyniadau eilaidd yn: Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS): canllaw gweithdrefnol | LLYW.CYMRU

Byddwn yn cyfeirio at ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd y byddwn yn gwneud sylwadau arnynt yn y cam cyn ymgeisio gyda'n hymateb o sylwedd cyn ymgeisio i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## 2.3 Cyn gwneud cais - cyngor yn ôl disgresiwn

Rydym yn cydnabod manteision ymgynghori cyn ymgeisio effeithiol rhyngom ni a'r ymgeisydd. Yn ogystal â'n cyngor statudol, gallwn gynnig barn ragarweiniol i ymgeiswyr a mynediad at ein gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgresiwn y codir tâl amdano.

Cynigir barn ragarweiniol am ddim ar gyfer pob cynnig sy'n bodloni o leiaf un o'r meini prawf yn ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gynnwys a sut i gael mynediad ato ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein gwasanaeth i ddatblygwyr

Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgresiwn os dymunwch gael mynediad at gyngor ehangach nag y gallwn ei ddarparu fel rhan o'n cyngor statudol neu farn ragarweiniol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- cyngor y gofynnir amdano yn y cam cyn hysbysu o'r broses ymgeisio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol
- cyfarfodydd gydag ymgeiswyr
- ymweliadau safle
- cyngor ar y materion y dylai datganiad amgylcheddol eu cynnwys
- cyngor ar ofynion arolwg cynefinoedd
- gofynion lliniaru
- cyngor manwl ar gyfyngiadau

Mae'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgresiwn yn wasanaeth y codir tâl amdano, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i'w ddefnyddio. Mae manylion llawn yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y gwasanaeth hwn, sut i gael mynediad iddo, a'r telerau ac amodau ar gyfer ei gynnig ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein gwasanaeth i ddatblygwyr

Os oes gennych ddiddordeb mewn defnyddio'r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgresiwn, byddwn yn gofyn i chi neu'ch ymgynghorwyr nodi pa gyngor sydd ei angen ac, os yw'r cais yn helaeth, darparu rhaglen waith fanwl i ni. Bydd y ddogfen hon yn ein helpu i asesu gofynion tymor byr a hirdymor y prosiect ac asesu ein gallu i ddarparu'r cyngor. Byddwn hefyd yn ei ddefnyddio i roi amcangyfrif o gost y gwaith y gofynnir amdano.

Os penderfynwch dderbyn ein dyfynbris am y gwaith, byddwn yn penodi swyddog fel pwynt cyswllt. Os bydd arnoch angen lefel sylweddol o fewnbwn gennym, byddwn yn cytuno ar brotocol gyda chi neu'ch ymgynghorwyr a fydd yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Byddwn yn gofyn i chi neu'ch ymgynghorwyr sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i ni i'n galluogi i ddarparu'r cyngor y gofynnwyd amdano i chi.

Rydym yn argymell bod trafodaethau ar ddefnyddio’r gwasanaeth cyngor cynllunio yn ôl disgresiwn yn dechrau cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi yn ystod camau diweddarach y broses o wneud cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn bwriadu gofyn am swm sylweddol o gyngor gan CNC.

## 2.4 Ymgynghoriad ar ôl cyflwyno cais – cyngor statudol

Mae’n ofynnol yn statudol i Weinidogion Cymru ymgynghori â ni pan fo Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol arfaethedig yn bodloni un neu fwy o’r meini prawf a restrir yn Atodlen 5 i Orchymyn 2016 pan ydym wedi ein rhestru fel ymgynghorai arbenigol oni bai ein bod wedi hysbysu Gweinidogion Cymru nad ydym yn dymuno iddynt ymgynghori â ni.

Mae’n ofynnol i ni o dan Erthygl 23 o Orchymyn 2016 i ddarparu ymateb o sylwedd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad derbyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

Yn unol ag Erthygl 23 (fel y’i diwygiwyd), os daw datganiad amgylcheddol gyda’r cais, byddwn yn darparu ymateb o sylwedd o fewn 30 diwrnod i ddyddiad derbyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

Pan fo angen estyniad amser, byddwn yn cysylltu â Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru cyn gynted â phosib i gytuno ar ddyddiad cau diwygiedig ar gyfer yr ymgynghoriad.

Pan nad oes ymgynghoriad cyn ymgeisio wedi’i gynnal neu pan nad ydym wedi rhoi ymateb ar ôl ymgynghoriad yn ystod y cam cyn ymgeisio, bydd ein hymateb o sylwedd i’r ymgynghoriad ar ôl gwneud cais yn cynnwys un o’r pedwar categori o ymatebion a nodir yn Nhabl 2.

**Tabl 2:Categorïau ymateb o sylwedd yn ystod y cam ymgynghori ar ôl cyflwyno cais, pan nad ydym wedi gwneud sylwadau o'r blaen yn y cam cyn ymgeisio**

| Categori ymateb o sylwedd | Pryd caiff ei ddefnyddio Pryd caiff ei ddefnyddio |
|---|---|
| Yn datgan bod gan yr ymgynghorai arbenigol ddim sylw i'w wneud | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan nad yw'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu. |
| Yn datgan bod gan yr ymgynghorai arbenigol ddim gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig ac yn cyfeirio Gweinidogion Cymru i gyngor sefydlog cyfredol gan yr ymgynghorai arbenigol ar bwnc yr ymgynghoriad | Byddai'r categori hwn o ymateb yn cael ei ddefnyddio pan ydym yn ystyried bod effeithiau sylweddol ar fuddiant amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu yn cael eu hosgoi’n briodol neu eu lliniaru heb unrhyw amodau cynllunio yn cael eu ceisio gennym ni. Byddwn yn cyfeirio at gyngor sefydlog Cyfoeth Naturiol Cymru ar destun yr ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| Yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw bryderon a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig a sut y gall y pryderon hynny gael sylw gan yr ymgeisydd | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan ydym yn ystyried bod y cynllun yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar y canlynol: |
| | • Pan fo'r wybodaeth yn ddiffygiol ac ni all ddiystyru effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl, darperir gwybodaeth ddigonol i ddangos y bydd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl yn cael eu llliniaru neu eu hosgoi'n briodol; a/neu |
| | • Pan ellid tawelu ein pryderon drwy osod amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd gan Weinidogion Cymru. |
| Yn hybysu bod yr ymgynghorai arbenigol yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan ydym yn ystyried: |
| | • Byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fuddiant amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu; ac |
| | • Ni allai'r effeithiau gael eu goresgyn gan unrhyw beth ond newidiadau sylweddol i'r datblygiad arfaethedig; ac |
| | • Ni allai'r effeithiau gael eu goresgyn drwy osod amodau cynllunio ar unrhyw g aniatâd cynllunio a/neu drwy ddarparu gwybodaeth newydd. |

Pan wneir cais am gydsyniadau eilaidd ac nad ydym wedi gwneud sylwadau arnynt o'r blaen, byddwn yn defnyddio categori ymateb o sylwedd a nodir yn Nhabl 2 ar gyfer ein hymatebion i bob cydsyniad eilaidd y byddwn yn ymateb iddo. Byddwn yn cyfeirio at ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd y byddwn yn gwneud sylwadau arnynt gyda'n hymateb o sylwedd ar ôl cyflwyno cais i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

**Pan ydym wedi gwneud sylwadau o'r blaen** yn y cam cyn ymgeisio, bydd ein hymateb o sylwedd i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn defnyddio un o'r tri chategori ymateb a nodir yn Nhabl 3.

**Tabl 3:Categorïau ymateb o sylwedd yn ystod y cam ymgynghori ar ôl cyflwyno cais, pan ydym wedi gwneud sylwadau o'r blaen yn y cam cyn ymgeisio**

| Categori ymateb o sylwedd | Pryd caiff ei ddefnyddio |
|---|---|
| Yn datgan bod gan yr ymgynghorai arbenigol ddim sylw pellach i'w wneud mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig ac yn cadarnhau bod unrhyw yn cadarnhau bod unrhyw sylwadau a wnaed o dan Erthygl 10 yn parhau i fod yn berthnasol | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan fyddwn yn fodlon bod ein sylwadau blaenorol yn parhau i fod yn ddilys. |

| | |
|---|---|
| Yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw bryderon newydd a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, pam na nodwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn unol ag Erthygl 10, a sut y gall yr ymgeisydd roi sylw i bryderon | Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb o dan yr amgylchiadau canlynol: |
| | • Rydym wedi dod yn ymwybodol o wybodaeth newydd (er enghraifft, lle mae gwybodaeth bellach wedi ei chyflwyno i ni gan yr ymgeisydd) ers rhoi ein hymateb cyn ymgeisio o sylwedd ac mae ein cyngor wedi newid; ac |
| | • Rydym yn ystyried mewn egwyddor y gellir datblygu'r cynnig yn yr un ffurf i raddau helaeth os bodlonir y canlynol: |
| | ○ Lle mae'r cais yn ddiffygiol, yn ein hatal rhag asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posib, bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i ddangos y bydd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol posibl yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n briodol; a/neu |
| | ○ Lle gallai ein pryderon pellach gael eu goresgyn trwy osod amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan Weinidogion Cymru. |
| Yn rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw bryderon newydd a nodwyd mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig, pam na nodwyd y pryderon yn yr ymateb a roddwyd yn unol ag Erthygl 10 a bod yr ymgynghorai arbenigol yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig ac yn nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad | • Byddem yn defnyddio'r categori hwn o ymateb pan fydd ein cyngor wedi newid oherwydd: |
| | • Rydym wedi dod yn ymwybodol o wybodaeth newydd (er enghraifft, pan fydd gwybodaeth bellach wedi ei chyflwyno i ni gan yr ymgeisydd ers gwneud ein hymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio) a fyddai'n arwain at y cynllun yn cael effaith annerbyniol ar fuddiant amgylcheddol a restrir ar ein rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu; ac |
| | • Ystyriwn na all ein pryderon gael eu goresgyn heb wneud newidiadau sylweddol i'r cais; ac |

| | |
|---|---|
| | • Nid ydym yn ystyried bod modd tawelu ein pryderon trwy osod amodau cynllunio ar unrhyw ganiatâd cynllunio a/neu drwy ddarparu gwybodaeth newydd. |

Pan gwneir cais am gydsyniadau eilaidd a'n bod wedi gwneud sylwadau arnynt o'r blaen yn y cam cyn ymgeisio, byddwn hefyd yn defnyddio un o'n categorïau o ymatebion o sylwedd a nodir yn Nhabl 3 ar gyfer ein hymatebion i bob cydsyniad eilaidd. Byddwn yn cyfeirio at ymatebion o sylwedd i gydsyniadau eilaidd y byddwn yn gwneud sylwadau arnynt gyda'n hymateb o sylwedd ar ôl cyflwyno cais i gais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

## 2.5 Datganiadau Tir Cyffredin

Pan ymgynghorir â ni ar Ddatganiad Tir Cyffredin, byddwn yn eu hystyried fesul achos.

Gallwch ddod o hyd i ganllawiau gweithdrefnol Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar Ddatganiadau Tir Cyffredin yma: Canllawiau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: y cam cyn-ymgeisio | LLYW.CYMRU.

## 2.6 Cytundebau adran 106

Pan fydd rhwymedigaethau adran 106 a bod gennym fuddiant cyfreithiol yn y tir, dylid ymgynghori â ni.

Dylai cynnwys y cytundeb gael ei gymeradwyo gennym ni cyn i'r cytundeb adran 106 gael ei lofnodi. Dylai'r rhwymedigaethau hefyd fodloni'r canlynol:

- cyngor a roddwyd yn Rhwymedigaethau cynllunio (cylchlythyr 13/97) | LLYW.CYMRU
- Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010

## 2.7 Archwilio

Byddwn yn cymryd rhan yn y broses archwilio pryd bynnag y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol gwneud hynny.

## 2.8 Cyfoeth Naturiol Cymru fel ymgynghorai: Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Rydym yn ymgynghorai o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016[1] (y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol).

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yng nghanllawiau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru: Canllawiau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: asesu effeithiau amgylcheddol | LLYW.CYMRU

[1] OS 2016 rhif 58 (W. 28)

## 2.9 Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff ymgynghori: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

O ran ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, ni yw'r 'corff cadwraeth natur priodol' o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010[2] (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd) o ran Cymru.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yng nghanllawiau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Canllawiau datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: asesiad rheoliadau cynefinoedd | LLYW.CYMRU

Rhaid i Weinidogion Cymru, fel yr 'awdurdod cymwys' ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, ymgynghori â ni fel y corff cadwraeth natur priodol at ddibenion yr asesiad a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gennym.

## 2.10 Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd

Mae perygl llifogydd, boed yn fewndirol neu o'r môr, yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Bydd angen i gynigion Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol mewn ardaloedd a ddiffinnir fel rhai sydd mewn perygl o lifogydd fodloni gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pheryg Llifogydd): Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu a pherygl llifogydd (2004) | LLYW.CYMRU

Ar gyfer cynigion mewn ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd (Parth C), bydd y profion dilyniannol a amlinellir yn adran 6 o TAN15 yn berthnasol.

Bydd angen cyflwyno Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd i gefnogi'r cais ar gyfer unrhyw gynnig lle mae perygl llifogydd wedi'i nodi fel pryder. Bydd angen i'r Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ddangos ei fod yn bodloni gofynion technegol TAN15, gan gynnwys lwfans newid hinsawdd.

## 2.11 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Yng Nghymru, mae Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 fel y'u diwygiwyd (y Rheoliadau) yn gweithredu (yn rhannol) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y Gyfarwyddeb).

Rhaid i'r ymgeisydd asesu a yw amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn debygol o gael eu peryglu.

[2] OS 2010/490

# 3. Cydsyniadau sy’n gysylltiedig â Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae prif bwerau a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru, a’i bwerau a dyletswyddau ehangach, sy’n ymwneud â pherchnogaeth tir, rheoleiddio, trwyddedu a chynghori yn deillio o nifer o Ddeddfau, rheoliadau, deddfwriaethau Ewropeaidd, a chonfensiynau rhyngwladol.

Mae angen i chi wneud cais am unrhyw gydsyniadau y byddwn yn penderfynu arnynt ar wahân i'r cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Rydym yn eich annog i gydgysylltu’r broses o gyflwyno’ch ceisiadau am gydsyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru â chyflwyno’r cais cynllunio ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o ba gydsyniadau eraill sydd eu hangen a'ch cyfrifoldeb chi hefyd yw cyflwyno'r ceisiadau mewn modd amserol. Dylech gyfeirio at y tabl Cydsyniadau, Cofrestriadau, Trwyddedau ac Awdurdodiadau Cyfoeth Naturiol Cymru  at y diben hwn.